

Rhif cofrestredig: 09044650 (Cymru)

Rhif yr elusen: 1187868

Menter Iaith Casnewydd

(Cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen)

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Menter Iaith Casnewydd

Cynnwys

Tudalen

- 2 Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol
- 3 Adroddiad y Cyfarwyddwyr
- 6 Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol
- 7 Datganiad o weithgareddau ariannol
- 8 Mantolen

9 - 15 Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Nid yw'r tudalennau canlynol yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol:

- 16 Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

Menter Iaith Casnewydd

Manylion y Cwmni

**Ymddiriedolwyr yr elusen
a chyfarwyddwyr y cwmni** Mr S A Blundell
Mr A Rees-Taylor - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms L K Harris - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Mr R Webber - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Mr L Hughes - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Dr M Rees - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms R Willis - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms S W Thomas - penodwyd ar 31 Mawrth 2022

Cadeirydd yr elusen Mr S A Blundell

Ysgrifennydd y cwmni Mr D Rh Henry

Rhif cofrestredig 09044650 (Cymru)

Swyddfa gofrestredig Uned2/Unit 2
The Provision Market
Casnewydd
NP20 1DD

Archwilydd annibynnol Huw Aled Accountants Ltd
60 Ashbourn Way
Llanishen
Caerdydd
CF14 5EY

Menter Iaith Casnewydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019).

Mae Menter Iaith Casnewydd yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad. Ymgorfforwyd y cwmni ar 16 Mai 2014 a chofrestrwyd fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau ar 11 Chwefror 2020.

Llwyddiannau a pherfformiad

Mae Menter Iaith Casnewydd yn darparu amrediad o wasanaethau er mwyn galluogi cymunedau Casnewydd i fyw a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir gweld amlinelliad o'n gwaith ar ein gwefan: www.MenterCasnewydd.Cymru

Arweiniodd y pandemig, a'r normal newydd, at newidiadau rhyngwladol, cenedlaethol, lleol ac o fewn Menter Iaith Casnewydd. Mae'r symudiad i weithredu'n ddigidol (fel ymateb i'r pandemig) yn golygu bod gweithio ar-lein yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n gwaith, hyd yn oed wrth i'r cyfyngiadau Covid godi. Trwy gadw at y rheolau Covid, roeddem yn gallu dychwelyd i weithio yn y gymuned. Er nad oeddem yn gallu dychwelyd i'n swyddfa ym Mhrifysgol De Cymru, roeddem yn gallu rhentu gweithfan gyda busnes bach lleol. Fe wnaethom ddatblygu ein hasedau digidol a'u chyfuno nhw gyda gweithio yn ein cymunedau, gan ddechrau gweithio mewn ffordd hybrid. Mae hyn wedi bod yn effeithiol, gyda Menywod Casnewydd yn arbennig, yn cynnal digwyddiadau hybrid yn rheolaidd.

Roedd parhau i weithio gyda phartneriaid yn hollbwysig ac rydym yn hynod falch o'n gweithgareddau ar y cyd gyda Menter BGTM, Gŵyl Newydd, Urdd Gobaith Cymru, Dysgu Cymraeg, Mudiad Meithrin a Phrifysgol De Cymru.

Buom yn gweithio i rymuso grwpiau lleol i ddod yn wydn a hunangynhaliol. Fe wnaethom ddarparu logo dwyieithog i'n Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol (GAVO) i'w ddefnyddio ar gyfer un o'u digwyddiadau blynyddol allweddol "Families Love Newport / Mae Teuluoedd yn Caru Casnewydd" sydd bellach yn rhan sefydledig o hunaniaeth eu brand.

I ymateb i'r golled mewn incwm a achoswyd gan y pandemig, sefydlwyd grŵp gwirfoddol codi arian newydd, gyda phwyslais newydd ar geisiadau grant. Dros y flwyddyn dyfarnwyd £26,236 o grantiau i ni (er na dderbyniwyd yr holl arian o fewn y flwyddyn ariannol) – sy'n rhywbeth yr ydym yn haeddiannol falch ohono.

Wrth i'r pandemig leddfu ac wrth i'n habsenoldeb gorfodol o'n swyddfeydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Casnewydd barhau, penderfynodd y bwrdd ei bod yn bryd i'r Fenter adleoli, gan geisio fangre a fyddai'n agored i'r cyhoedd, ac yn darparu hwb i'r iaith yng Nghasnewydd. Ar ôl llawer o waith ymchwil a thrafod, penderfynasom symud i Farchnad Casnewydd, sef adfywiad marchnad dan do mwyaf Ewrop. Ar ôl llofnodi prydles, wnaeth oedi ar y gwaith adfer a gosod golygu nad oedd modd adleoli tan y flwyddyn ariannol 2022-2023.

Gwelwyd sawl aelod o'r bwrdd yn camu i lawr yn ystod y flwyddyn hon. Rydym yn dragwyddol ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad ac am helpu i arwain Menter Iaith Casnewydd trwy gyfnod anodd iawn. Roedd newidiadau mewn amgylchiadau personol a staffio yn gwneud y chwarter diwethaf yn heriol iawn. Serch hynny, mae Menter Iaith Casnewydd yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n defnyddwyr gwasanaeth, agor yr Uned newydd ym Marchnad Casnewydd a thyfu ein darpariaeth gymunedol.

Menter Iaith Casnewydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Ein diben a'n gweithgareddau

Sefydlwyd Menter Iaith Casnewydd yn 2009 gan grŵp o wirfoddolwyr yn y gymuned oedd am weld y Gymraeg yn tyfu a ffynnu yng Nghasnewydd. Mae ganddom swyddogion llawn amser a gweithwyr achlysurol yn gweithio i ddatblygu rhaglen o weithgareddau Cymraeg yn y gymuned. Gweithiwn hefyd mewn partneriaeth gyda mudiadau cymunedol eraill i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas a'r Sir gan gyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Amcan y mudiad yw i wella addysg y cyhoedd am yr iaith Gymraeg drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned drwy ddarparu clybiau gofal plant, gweithgareddau i ddysgwyr, clybiau ieuenctid, hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat a chynnal a threfnu gweithgareddau cyson.

Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Rheolir yr elusen gan ei ddogfen lywodraethu sef Memorandwm ac Erthyglau a fabwysiadwyd ar 16 Mai 2014. Mae Menter Iaith Casnewydd yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig. Mae'n fudiad nid-er-elw ac yn cael ei reoli gan bwyllgor o wirfoddolwyr sydd yn gyfarwyddwyr ac yn aelodau a adnabyddir fel y Pwyllgor Rheoli. Mae cyfraniad pob aelod o'r elusen wedi ei gyfyngu i £1 tuag at asedau os yw'r elusen yn cael ei ddiddymu. Etholir ein cyfarwyddwyr a'n hymddiriedolwyr yn y cyfarfod blynyddol cyffredinol drwy enwebiad yn ôl ein dogfen llywodraethiant.

Cyfarwyddwyr

Datgelir y Cyfarwyddwyr a weithredodd yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol yma:

Mr S A Blundell
Mr T O Rodrigues - ymddiswyddodd ar 26 Hydref 2022
Mr A Rees-Taylor - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms L K Harris - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Mr R Webber - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Mr L Hughes - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Dr M Rees - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms R Willis - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms S W Thomas - penodwyd ar 31 Mawrth 2022
Ms E M Howley - ymddiswyddodd ar 2 Rhagfyr 2021
Mr S R Edwards - ymddiswyddodd ar 1 Rhagfyr 2021
Ms Rh W Dafydd - ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2022
Mrs E Maher - ymddiswyddodd ar 19 Mehefin 2021

Adolygiad ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Derbyniwyd cyfanswm incwm o £85,944 (2021: £86,672) a gwariwyd £76,208 (2021: £75,615) ac felly yr incwm net oedd £9,736 (2021: £11,057).

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Mawrth 2022 oedd £91,583 (2021: £81,847), lle roedd £5,899 yn perthyn i gronfa cyfyngedig (2021: £dim) a £30,018 (2021: £20,015) wedi ei gadw fel cronfa wrth gefn yn unol â'r polisi cronfeydd wrth gefn.

Menter Iaith Casnewydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Adolygiad risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Menter Iaith Casnewydd yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis angen rhestru prif risgiau y cwmni, e.e. parhad y cwmni, materion ariannol, iechyd a diogelwch, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

Polisi cronfeydd wrth gefn a busnes gweithredol

Mae gan Gyfarwyddwyr Menter Iaith Casnewydd yr hawl i gadw arian wrth gefn. Mae'r arian hyn er mwyn gwarchod y cwmni mewn sefyllfa o argyfwng. Gall yr arian gael ei ddefnyddio i dalu biliau a chyflogau pan fo sefyllfa ariannol Menter Iaith Casnewydd yn isel. Bydd yr arian hwn yn cael ei ad-dalu yn unionsyth, hynny yw pan fo digon o arian yn y cyfrif cyfredol. Mae'r arian wrth gefn yn cael ei gadw mewn cyfrif cynilion y gellir cael mynediad ato unrhywbryd.

Caiff yr arian yma ei nodi fel 'Cronfa Wrth Gefn' ar gyfrifon Menter Iaith Casnewydd. Ymgeisia Menter Iaith Casnewydd gadw cyfanswm yr arian wrth gefn yn £30,000 oni phenderfynnir yn wahanol yng nghyfarfodydd y Cyfarwyddwyr. Anela'r Cyfarwyddwyr i gadw at y swm hwn ac ychwanegu ato er mwyn sicrhau bod mwy na digon i dalu costau rhedeg craidd y Fenter am 3 mis pe bai'r Fenter yn dod i ben. Bydd yr arian sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gau'r Fenter yn arian y bydd posib ei ddefnyddio mewn argyfwng neu achos brys i gynnal digwyddiad, swydd neu ymgyrch benodol. Nid yw'r arian yma yn cael ei wario heb bleidlais fwyafrifol mewn cyfarfod llawn o'r Pwyllgor Cyfarwyddwyr.

Prif ffynhonnell incwm Menter Iaith Casnewydd yw Grant Llywodraeth Cymru. Mae Menter Iaith Casnewydd yn ymdrechu i ddenu incwm ychwanegol o ffynonellau arian eraill megis trwy geisiadau grant.

Polisi buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

Archwilydd annibynnol

Archwilydd annibynnol y cyfrifon hyn oedd Huw Aled Accountants Ltd, 60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 12 Rhagfyr 2022 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Enw: STEPHEN ASHLEY BLUNDELL
Ymddiriedolwr

Menter Iaith Casnewydd

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Menter Iaith Casnewydd

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Menter Iaith Casnewydd ('y Cwmni')

Yr wyf yn adrodd i Ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel Ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006;

neu

2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn;


neu

3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol;

neu

4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsyrn ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dilyd tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.


Aled Wyn Thomas, ACA

Huw Aled Accountants Ltd
60 Ashbourn Way
Llanishen
Caerdydd
CF14 5EY

Dyddiad: 12/12/2022

Menter Iaith Casnewydd

Datganiad o weithgareddau ariannol
(yn cynnwys cyfrif o incwm a gwariant)

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

		2022	2021
		£	£
<u>Incwm</u>	Nodyn		
Rhoddion	3	85,941	86,663
Llog		3	9
Cyfanswm Incwm		85,944	86,672
<u>Gwariant</u>			
Gweithgareddau elusenol	4, 5	(76,208)	(75,615)
Incwm net		9,736	11,057
<u>Cysoni'r Cronfeydd</u>			
Cysoni'r cronfeydd a ddygwyd ymlaen		81,847	70,790
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		91,583	81,847

Menter Iaith Casnewydd

Mantolen ar 31 Mawrth 2022

		2022	2021
		£	£
Asedau sefydlog	Nodyn		
Asedau diriaethol	9	2,158	2,877
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	10	3,186	989
Arian yn y banc		87,619	79,061
		<u>90,805</u>	<u>80,050</u>
Credydwyr			
Yn ddyledus o fewn un blwyddyn	11	(1,380)	(1,080)
Asedau net cyfredol		<u>89,425</u>	<u>78,970</u>
Cyfanswm asedau llai dyledion cyfredol		<u>91,583</u>	<u>81,847</u>
Asedau net		<u>91,583</u>	<u>81,847</u>
Cronfeydd			
Cronfeydd cyfyngedig		5,899	-
Cronfeydd wrth gefn		30,018	20,015
Cronfeydd cyffredinol		55,666	61,832
Cyfanswm y cronfeydd		<u>91,583</u>	<u>81,847</u>

Mae gan y cwmni elusenol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusenol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusenol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac
(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusenol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusenol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusenol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 12 Rhagfyr 2022 2022 a'u llofnodi ar eu rhan gan:



Enw: **STEPHEN ASHLEY BLUNDELL**
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 15 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Menter Iaith Casnewydd

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

1) Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Casnewydd yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw Unit 2/Uned 2, The Provision Market, Casnewydd, Cymru, NP20 1DD.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw i gynyddu defnydd y Gymraeg gan blant ac oedolion Casnewydd a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o waed naturiol y ddinas gan alluogi pobl Casnewydd i fyw a gweithio yn y Gymraeg.

Caiff y prif bolisiâu cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisiâu eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

2) Polisiâu Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Menter Iaith Casnewydd yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

Incwm o weithgareddau elusennol

Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

Incwm buddsoddiadau

Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn. Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

Gwariant

Caiff ymrwymïadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

2) Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Gwariant (parhad)

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

Asedau Sefydlog diriaethol

Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost. Amcangyfrifir y dibrsiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

Offer a chyfarpar	- 25% dull lleihau
Offer cyfrifiadurol	- 25% dull lleihau

Trethiant

Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

Cyfrifo Cronfeydd

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol. Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Offerynnau Ariannol

Dim ond asedau ac ymrwymadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol.

Credydwyr

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

2) Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Trafodion cyfyngedig

Dosberthir cronfeydd fel rhai cyfyngedig pan dyfarnwyd incwm grant ar gyfer gweithredu prosiectau penodol. Pan fydd yr elusen yn gwario costau cymorth wrth gyflawni amcanion y grantiau hyn, nid yw'n ymarferol rhannu'r gwariant rhwng elfennau cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae pob grant a wobrwyyd ar y sail bod elfen o gostau cymorth yn rhan o'r cais grant yn cael eu dosbarthu fel rhai gwbl anghyfyngedig.

3) Rhoddion

	2022	2021
	£	£
<u>Incwm</u>		
Grant Craidd y Llywodraeth	60,000	60,000
Grant Ieuencid	13,000	-
Grant Hydref o Hwyl	3,186	-
Grant Haf o Hwyl	2,186	-
Ffioedd Gofal Plant (<i>gweler manylion isod</i>)	2,078	(185)
Grant clybiau ar ôl ysgol Cyngor Casnewydd	4,000	-
Grant Cronfa Cadernid Economaidd	-	10,000
Grant Cymraeg Byd Busnes	-	3,861
Cynllun diogeli swyddi	526	7,783
Grantiau eraill	935	5,129
Incwm arall	30	75
Llog	3	9
Cyfanswm incwm	85,944	86,672

Ffioedd Gofal Plant

Derbyniwyd £2,078 (2021: colled o £185) o ffioedd gofal plant yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022. Yn 2021, yn sgîl y pandemig, bu rhaid cau y clybiau ar ôl ysgol. O ganlyniad, bu rhaid prosesu ad-daliadau i rieni a bu rhaid dileu cyfran o'r dyledwyr a oedd yn gydnabyddedig ar 31 Mawrth 2020, sef ffioedd gofal plant oedd yn ddyledus i'r cwmni. Cyfanswm yr ad-daliadau ac o ddileu y dyledwyr oedd £2,527. Y canlyniad net ar gyfer gofal plant yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 oedd colled o £185.

Grantiau eraill

Cyfanswm incwm grantiau eraill y cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yw £935 (2021: £5,129). Mae'r ffynhonnell incwm yma yn cynnwys grant cyfieithu o £494 a grant Eglwys Cymru o £441.

Menter Iaith Casnewydd**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (parhad)****4) Gwariant**

	2022	2021
	£	£
<u>Costau uniongyrchol</u>		
<u>Costau gweithgareddau craidd</u>		
Hysbysebu gweithgareddau	-	20
Gweithgareddau	11,267	2,115
Adnoddau	494	-
Cyfanswm costau gweithgareddau craidd	11,761	2,135
<u>Costau clybiau ar ôl ysgol</u>		
Bwyd ac adnoddau	366	147
Yswiriant	380	296
Gwiriadau DBS	100	50
Cyfanswm costau clybiau ar ôl ysgol	846	493
Cyfanswm costau uniongyrchol	12,607	2,628
<u>Costau cyflogaeth</u>		
<u>Staff craidd</u>		
Cyflogau	41,258	45,840
Yswiriant Gwladol	3,267	4,273
Costau pensiwn	3,418	1,749
<u>Clybiau gwyliau</u>		
Cyflogau	581	1,989
Costau pensiwn	-	80
<u>Staff clybiau ar ôl ysgol</u>		
Cyflogau	5,796	11,036
Cyfanswm costau cyflogaeth	54,320	64,967
<u>Treuliau gweinyddol cyffredinol</u>		
Rhent	60	95
Ffôn/WiFi	461	307
Treuliau TG	180	3,363
Ffioedd proffesiynol	2,486	-
Nwyddau swyddfa	100	-
Yswiriant	737	683
Aelodaeth	1,000	1,000
Hysbysebu	1,394	-
Costau eraill	990	455
Ffioedd bancio	74	77
Cyfanswm costau gweinyddol cyffredinol	7,482	5,980

Menter Iaith Casnewydd

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (parhad)

5) Costau anuniongyrchol eraill

	2022	2021
	£	£
Dibrisio gosodiadau a ffitiadau	719	960
Ffi archwilio	1,080	1,080
	<u>1,799</u>	<u>2,040</u>

6) Dadansoddiad o gostau staff a chydabyddiaeth a threuliau'r Ymddiriedolwyr

Ni chafodd yr Ymddiriedolwyr unrhyw enillion na chwaith unrhyw dreuliau yn ystod y flwyddyn (2021: £dim).

7) Costau staff

Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd 6 o staff yn ystod y flwyddyn (2021: 10).

8) Cwmni cyfyngedig drwy warant

Mae'r cwmni yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac felly nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Mae pob un o'r aelodau yn atebol i gyfrannu swm nad yw'n fwy na £1 tuag at asedau'r cwmni os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben.

Menter Iaith Casnewydd**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022 (parhad)****9) Asedau sefydlog diriaethol**

	Offer cyfrifiadurol £	Offer a chyfarpar £	Cyfanswm £
Cost			
Ar 1 Ebrill 2020	-	4,483	4,483
Ychwanegiadau	2,447	-	2,447
Ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022	2,447	4,483	6,930
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2020	(612)	(2,481)	(3,093)
Tâl am y flwyddyn	(459)	(501)	(960)
Ar 31 Mawrth 2021 a 1 Ebrill 2021	(1,071)	(2,982)	(4,053)
Tâl am y flwyddyn	(344)	(375)	(719)
Ar 31 Mawrth 2022	(1,415)	(3,357)	(4,772)
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2022	1,032	1,126	2,158
Ar 31 Mawrth 2021	1,376	1,501	2,877

10) Dyledwyr: symiau'n ddyledus o fewn un blwyddyn

	2022 £	2021 £
Grant Hydref o Hwyl	3,186	-
Ffioedd clybiau ar ôl ysgol	-	989
	3,186	989

11) Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn un blwyddyn

	2022 £	2021 £
Credydwyr masnach	300	-
Credydwyr eraill	1,080	1,080
	1,380	1,080

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (parhad)

12) Symudiadau o fewn cronfeydd

	Ar 1/4/21	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	Ar 31/3/22
	£	£	£	£
<u>Cronfeydd anghyfyngedig</u>				
Cronfa gyffredinol	61,832	52,634	(58,800)	55,666
Cronfa wrth gefn	20,015	10,003	-	30,018
	<u>81,847</u>	<u>62,637</u>	<u>(58,800)</u>	<u>85,684</u>
<u>Cronfeydd Cyfyngedig</u>				
Grant leuenctid	-	13,000	(7,101)	5,899
Grant clybiau ar ôl ysgol Cyngor Casnewydd	-	4,000	(4,000)	-
Grant Haf o Hwyl	-	2,186	(2,186)	-
Grant Hydref o Hwyl	-	3,186	(3,186)	-
Grant cyfieithu	-	494	(494)	-
Grant Eglwysi Cymru	-	441	(441)	-
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	-	<u>23,307</u>	<u>(17,408)</u>	<u>5,899</u>
Cyfansymiau cronfeydd	<u>81,847</u>	<u>85,944</u>	<u>(76,208)</u>	<u>91,583</u>

13) Offerynnau ariannol

	2022	2021
	£	£
Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad	3,186	989
Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad	<u>1,380</u>	<u>1,080</u>
	<u>4,566</u>	<u>2,069</u>

14) Trafodion â phartïon cysylltiedig

Derbyniwyd cyfanswm o £dim (2021: £524) gan bartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn trwy ad-daliadau treuliau.

Menter Iaith Casnewydd
Cyfrif Incwm a Gwariant manwl

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	2022	2021
	£	£
Incwm		
Grant Craidd Llywodraeth Cymru	60,000	60,000
Grant Ieuenctid	13,000	-
Grant clybiau ar ôl ysgol Cyngor Casnewydd	4,000	-
Grant Hydref o Hwyl	3,186	-
Grant Haf o Hwyl	2,186	-
Grant Cronfa Cadernid Economaidd	-	10,000
Grant Cymraeg Byd Busnes	-	3,861
Ffioedd Gofal Plant	2,078	(185)
Cynllun Diogeli Swyddi	526	7,783
Grantiau eraill	935	5,129
Incwm arall	30	75
Llog	3	9
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd	85,944	86,672
Gwariant		
Costau uniongyrchol	(12,607)	(2,628)
Costau cyflogaeth	(54,320)	(64,967)
Treuliau gweinyddol cyffredinol	(7,482)	(5,980)
Costau anuniongyrchol eraill	(1,799)	(2,040)
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	(76,208)	(75,615)
Incwm net	9,736	11,057

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiad ariannol statudol